**Cofnodion Wedi'i Gadarnhau o**
**Gyfarfod Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl Iechyd Cyhoeddus Cymru**
**11 Ebrill 2024 am 10:30, yn 3.2 CQ2 a thrwy Microsoft Teams**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn Bresennol:** | | |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Y Trydydd Sector) |
| Tamsin Ramasut | (TR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | | |
| Rachel Attwood | (RA) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu |
| Michelle Battlemuch | (MB) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau, Tîm Gweithredol |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd |
| Lucy Day | (LD) | Rheolwr Busnes |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl |
| Kelly McFadyen | (KM) | Rheolwr Hyfforddi a Datblygu |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Joe O'Brien | (JOB) | Arweinydd Systemau'r Gweithlu a Dadansoddeg (Gadawodd am 11:00) |
| Liz Heath | (LH) | Cynrychiolydd y staff |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio a Chyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr (cyrhaeddodd am 11:25 a gadawodd am 12:24) |
| Danielle Gething | (DG) | Pennaeth Rheoli Risg (cyrhaeddodd am 11:01 a gadawodd am 11:41) |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig |
| **Ysgrifenyddiaeth** | | |
| Ffion Lloyd | (FL) | Swyddog Cymorth y Bwrdd |

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30

| | |
|---|---|
| **PODC 1/2024.04.11** | **Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb** |

Agorodd MM y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol, gan nodi bod y cyfarfod yn cael ei gynnal ar ffurf electronig ac wyneb yn wyneb yn CQ2.

Cadarnhau

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf 2024.

**Nodwyd** yr ymddiheuriadau am absenoldeb.

| **PODC 2/2024.04.11** | **Datgan Buddiannau** |
|---|---|

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

| **PODC 3/2024.04.11** | **Eitemau Er Sicrwydd** |
|---|---|
| **PODC 3.1/. 2024.04.11** | **Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad y Gweithlu** |

Ystyriodd y Pwyllgor y Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad y Gweithlu.

Darparodd JOB ddiweddariad ar bwyntiau allweddol y Dangosfyrddau Sicrwydd Perfformiad a ddiweddarwyd gyda data mis Mawrth:

- Roedd y lefelau salwch yn unol â'r disgwyl, a byddai data meincnodi newydd yn cael eu cyflwyno i alluogi cymariaethau rhwng sefydliadau ac i ddarparu gwybodaeth amser real.
- Roedd y trosiant misol ar gyfer mis Mawrth yn uwch nag mewn misoedd blaenorol ond rhagwelwyd hyn oherwydd diwedd y contractau tymor sefydlog.
- Datblygwyd proses newydd i ddeall a mynd i'r afael â'r problemau o ran peidio â chofnodi'r rhesymau dros adael; JOB i gyflwyno dadansoddiad o ddata'r chwarter cyntaf i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

**Camau Gweithredu: JOB**

- Roedd y ffigur arfarnu ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynyddu 8%, a 10% ar gyfer y gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio.
- Bydd cwrs Dyletswydd Ansawdd ychwanegol yn cael ei ychwanegu fel cwrs statudol a gorfodol craidd o 1 Ebrill.
- Roedd data'n cael eu paratoi ar gyfer y Safon Cydraddoldeb Hiliol i fodloni'r gofynion adrodd o 31 Mawrth; bydd JOB yn dod â'r data hyn i gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol unwaith y bydd yr adroddiadau cenedlaethol wedi'u cwblhau.

**Camau Gweithredu: JOB**

Diolchodd MM i JOB am y diweddariadau a chydnabu'r cynnydd a wnaed.

Nododd y Pwyllgor y gallai'r data hyn gynorthwyo i nodi'r bylchau mewn hyfforddiant Statudol a Gorfodol ac i weithio gydag unigolion i annog cynnydd. Holodd y Pwyllgor hefyd a oedd y cyfraddau salwch uwch mewn rolau ym mandiau 3 a 4 yn seiliedig ar y ffaith bod cyfradd uwch o rolau rheng flaen yn y bandiau hynny, nad oeddent yn gallu cael eu gwneud gartref. Cytunodd JOB y byddai'n ystyried hyn ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Wedi'i Gadarnhau

**Camau Gweithredu: JOB**

Nododd y Pwyllgor y cyfraddau cwblhau hyfforddiant is ar gyfer y Bwrdd a'r Gyfarwyddiaeth Gorfforaethol, a briodolwyd i lai o oriau gweithio a gweithlu llai na'r cyfarwyddiaethau eraill. Nododd CB gynlluniau i gynnwys rhai modiwlau hyfforddi yng nghyfarfodydd Datblygu'r Bwrdd yn y dyfodol.

Nododd y Pwyllgor hefyd y data coll ar gyfweliadau gadael; rhoddodd NL sicrwydd bod y data hyn yn rhan o ddata'r arolwg staff, ac y byddent yn cael eu cysylltu â'r data rhesymau dros adael i alluogi ymchwiliadau mwy manwl.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** yn sgil y wybodaeth yn y Dangosfyrddau.

| **PODC 3.1.1/2024.04.11** | **Hyfforddiant Statudol a Gorfodol** |
|---|---|

Darparodd RB restr i'r Pwyllgor o ymholiadau gan Bwyllgorau eraill ynghylch ystyried mandadu cyrsiau a pha mor rheolaidd ydynt. Y gofynion penodol ar gyfer y cyfarfod hwn oedd:

- A ddylid mandadu'r hyfforddiant Cynllunio Parhad Busnes.
- A ddylid newid pa mor aml y cynhelir y modiwl Gwrth-dwyll/Seiberddiogelwch o bob dwy flynedd i bob blwyddyn.
- Rhoi sicrwydd ynghylch cael system fonitro ar gyfer hyfforddiant Iechyd a Diogelwch.

Amlygodd NL yr heriau ynghylch gweithredu hyn oherwydd y safbwynt Cymru gyfan ar safonau hyfforddi ac awgrymodd y gellid gwneud yr hyfforddiant yn fwy penodol ar gyfer rolau i'w wneud yn fwy perthnasol i'r staff. Nododd RA fod adborth yn cael ei roi ar yr hyfforddiant gofynnol ac y byddai hyn o bosibl yn cael ei ystyried mewn arolwg yn y dyfodol.

Nododd y Pwyllgor nad oedd rhai cyrsiau hyfforddi yn addas oherwydd hygyrchedd, fel y ffaith nad oes is-deitlau neu fod yn rhaid eu cwblhau mewn amgylchedd prysur/swnllyd ar gyfer y staff hynny mewn labordai, ac felly mae'n bosibl y byddai cynyddu eu hamlder yn peri trafferth. Holwyd a oedd angen newid y modiwl Diogelwch Seiber i fod yn flynyddol neu a fyddai diweddariad / gohebiaeth am fygythiadau perthnasol newydd yn fwy priodol.

Cytunodd NL ac RA i gyfathrebu â'r arweinwyr perthnasol ynghylch y ffordd orau ymlaen a byddai hyn yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**Camau Gweithredu: NL/RA**

**Ystyriodd** y Pwyllgor yr ymholiadau a gyfeiriwyd o'r Pwyllgorau mewn perthynas â hyfforddiant Statudol a Gorfodol a **nododd** y byddai crynodeb ysgrifenedig o'r arolwg yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor drwy adroddiad Cyfansawdd y Bwrdd ar y drafodaeth.

| **PODC 3.1.2/2024.04.11** | **Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio (Cydymffurfiaeth â Fy Nghyfraniad)** |
|---|---|

Wedi'i Gadarnhau

Rhoddodd MB ddiweddariad ar gydymffurfiaeth y gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio â Fy Nghyfraniad yn dilyn yr eitem archwiliad dwfn a gynhaliwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror 2024. Roedd hyn yn cynnwys mis ychwanegol o ddata (Chwefror 2024) na chawsant eu cyflwyno'n flaenorol.

Amlygodd MB y cynnydd mewn cydymffurfiaeth o 71-76% rhwng mis Ionawr a Chwefror, a rhestrodd y gwaith a wnaed i gyflawni hyn, megis cynllun pwrpasol ar gyfer pob cyfarwyddiaeth a chymorth wedi'i dargedu ar gyfer rheolwyr. Roedd y cynlluniau hyn yn awgrymu y dylai pob maes fod wedi cyflawni cydymffurfiaeth o 85% erbyn diwedd Chwarter 2.

Diolchodd MM i MB am y diweddariadau a gwnaeth sylw am y cynnydd cadarnhaol a wnaed. Holodd y Pwyllgor a oedd modd cynnal y gwelliannau a welwyd ar ôl i'r cymorth gael ei dynnu'n ôl. Cadarnhaodd MB fod prosesau cynaliadwy'n cael eu hymchwilio a'u gweithredu, megis edrych ar ddarparu mynediad gweinyddol procsi i'r rheini heb liniadur i wella'r amserau llwytho o gymharu â darparu data i gydweithwyr yn y gyfarwyddiaeth Datblygu Sefydliadol a Phobl.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y cynnydd a wnaed i wella'r gydymffurfiaeth â Fy Nghyfraniad o fewn y gyfarwyddiaeth Diogelu Iechyd a Sgrinio. *

| | |
|---|---|
| **PODC 3.2** | **Ymgysylltu â'r Staff a Gweithio mewn Partneriaeth â'r Undebau Llafur** |
| **PODC 3.2.1/ 2024.04.11** | **Cynllun Gweithredu ar Ddiwylliant (wedi'i gysylltu â'r Gofrestr Risgiau Strategol)** |

Darparodd RA ddiweddariad i'r Pwyllgor er sicrwydd ynghylch cynnydd y Cynllun Gweithredu Diwylliant fel rhan o'r camau gweithredu i ddarparu'r diwylliant a ddymunir drwy gynllun gweithredu lefel uchel, sy'n gysylltiedig â Risg Strategol 4.

Roedd y diweddariad yn cynnwys defnyddio tri phrif flaenoriaeth y gyfarwyddiaeth Datblygu Sefydliadol a Phobl i lunio cerrig milltir y Cynllun Tymor Canolig Integredig y gellid eu defnyddio i olrhain y cynnydd a wneir a'r naratif diwylliant diwygiedig a uwchlwythwyd i'r fewnrwyd.

Holodd y Pwyllgor a oedd gweithio gyda'r undebau llafur yn rhan o'r amcanion llesiant a sut y byddai'r Bwrdd yn cael ei hysbysu ynghylch cynnydd y cynllun hwn. Rhoddodd RA sicrwydd i'r Pwyllgor fod gweithio gyda'r undebau llafur wedi'i ymwreiddio yn y cynllun, a bod dangosfwrdd yn cael ei ddatblygu i gyfleu'r cynnydd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol ac i gyfarfodydd y Bwrdd; mae disgwyl i'r dangosfwrdd hwn gael ei ddarparu erbyn chwarter 4 unwaith y bydd y blaenoriaethau i'w mesur wedi'u pennu.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod cynllun ar waith i gyflawni ar y Risg Strategol i ddarparu'r diwylliant a ddymunir.

| | |
|---|---|
| **PODC 3.2.2/ 2024.04.11** | **Rhwydweithiau Staff - Diweddariad ar y Camau i'w Cymryd** |

Rhoddodd RA ddiweddariad ar gynnydd camau gweithredu'r rhwydweithiau staff a gymeradwywyd gan y Bwrdd.

Wedi'i Gadarnhau

Nododd RA nad oedd y Rhwydwaith Menywod wedi mynychu cyfarfod o'r Bwrdd eto; byddai hyn bellach yn digwydd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf. Nododd RA fod yr holl gamau gweithredu ar gyfer yr holl rwydweithiau eraill y cytunwyd arnynt naill ai wedi'u cau neu ar y gweill. Amlygwyd hefyd y ffaith y byddai adnoddau ychwanegol ar gael ar gyfer hyn yn fuan, ac y byddent hefyd yn edrych ar gyfuno camau gweithredu i roi budd i nifer o rwydweithiau.

Holodd y Pwyllgor a oedd y camau gweithredu a'r cynlluniau gweithredu wedi'u cytuno â'r rhwydweithiau; cadarnhaodd RA hyn ac amlygodd NL y gwaith recriwtio diweddar o fewn y tîm Datblygu Sefydliadol a Phobl i feithrin y rôl rhwng y rhwydweithiau a'r sefydliad ehangach.

Holodd KY ynghylch cynnydd y ddeddf absenoldeb i ofalwyr, a chadarnhaodd NL fod gwaith ar y gweill a'r gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud gyda Chadeirydd y Rhwydwaith Gofalwyr.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y cynnydd a wnaed o ran y ceisiadau a wnaed i'r Bwrdd gan y Rhwydweithiau Amrywiaeth Staff hyd yn hyn.

| **PODC 3.2.3/ 2024.04.11** | **Adroddiad Blynyddol y Fforwm Partneriaeth Lleol (2023/24)** |
|---|---|

Rhoddodd NL drosolwg o Adroddiad Blynyddol y Fforwm Partneriaeth Lleol sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024; gwnaeth hwn amlygu dadansoddiad o bresenoldeb mewn cyfarfodydd, y pynciau allweddol a drafodwyd a'r polisïau a gymeradwywyd. Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at yr heriau diweddar fel y Cylch Gorchwyl sydd heb ei benderfynu gan Bwyllgor Ochr y Staff a sicrhau bod gan y Fforwm Partneriaeth Lleol gworwm oherwydd mae'r rhain yn peri anawsterau o ran gwneud cynnydd.

Hysbysodd LH y Pwyllgor fod yr eitem hon wedi'i rhannu â Phwyllgor Ochr y Staff a chafwyd ymateb gan y Cadeirydd a ddarllenwyd i'r aelodau. Byddai'r ymateb hwn yn cael ei ddosbarthu i aelodau'r Pwyllgor ar ôl y cyfarfod.
Camau Gweithredu: LB

Diolchodd MM i LH am y diweddariad a phwysleisiodd bwysigrwydd y berthynas rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r undebau llafur. Nodwyd nad oedd presenoldeb da mewn cyfarfodydd diweddar a bod yr aelodau'n awyddus i ganfod atebion i'r heriau hyn heb ymyrraeth Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Ymatebodd NL drwy ail-gadarnhau i'r Pwyllgor bod y Bwrdd wedi cymeradwyo'r newidiadau llywodraethu 12 mis yn ôl, a bod y cynigion wedi bod yn destun proses Parch a Datrys ffurfiol sydd wedi'i harwain gan ymgynghorydd annibynnol. Ni chadarnhawyd y gŵyn Parch a Datrys a gyflwynwyd gan UNITE ac ni ddaeth unrhyw apêl i law. Nododd NL ei ymrwymiad parhaus a'i ddymuniad i weithio mewn partneriaeth â'r Undebau Llafur a bod cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr rhanbarthol wedi'u trefnu mewn ymgais i symud ymlaen.

Nododd LH ei bod yn bosibl na fydd yr undebau'n gallu anfon y rheini y maent wedi'u hethol i'w cynrychioli ac y byddent yn cyflwyno'r sylwadau yn ôl i Bwyllgor Ochr y Staff.

Wedi'i Gadarnhau

Nododd y Pwyllgor hawl y Bwrdd i benderfynu ynghylch presenoldeb yn ei gyfarfodydd a phwysigrwydd gweithio gyda'r deinameg o fewn a rhwng yr undebau i alluogi pobl i gynrychioli eu hundebau a'u proffesiynau.

Diolchodd MM i NL ac LH am eu sylwadau ac awgrymodd y dylid dychwelyd i'r eitem hon mewn cyfarfod yn y dyfodol i gael diweddariad am y cynnydd a wnaed.

**Camau Gweithredu: NL**

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Fforwm Partneriaeth Lleol a ddarparwyd er sicrwydd.

| PODC 3.3/ 2024.04.11 | Rheoli Risgiau – 11:20 |
|---|---|

Darparodd CB ddiweddariad ar y gwaith o reoli'r cofrestrau risgiau strategol a chorfforaethol.

Nododd CB y 7 risg sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Hirdymor a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a ddarllenwyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2023 ac a ddiwygiwyd gan y Tîm Gweithredol.

Amlygwyd Risg Strategol 4 oherwydd rhestrwyd John Bolton fel cyfrannwr er gwaethaf y ffaith ei fod wedi newid rôl; byddai hyn yn cael ei adolygu pan fyddai arweinydd newydd yn cael ei benodi. Ni adroddwyd unrhyw newid i sgôr y risg, ond roedd newid i'w ddisgwyl yn sgil gwaith cyfryngu ynghylch yr arolwg Staff Ymholiad Cyhoeddus a'r gwaith ar ddiwylliant.

Amlygwyd tri maes o'r Gofrestr Risg Corfforaethol i'r Pwyllgor:

- Dyletswyddau o fewn y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Cysylltiadau â'r Risg Strategol o ran capasiti'r gweithlu/adnoddau.
- Y gofyniad gwiriad DBS sefydliadol

Nododd y Pwyllgor bwysigrwydd cynllunio'n strategol ar gyfer y gweithlu a gofynnodd a oedd hyn ar waith. Cadarnhaol NL y gwaith a wnaed gyda'r holl gyfarwyddiaethau i sicrhau bod gwaith cynllunio ar gyfer y gweithlu ar waith i nodi bylchau a heriau fel yn achos COVID a gweithredu diwydiannol.

Holodd y Pwyllgor ynghylch cyflwyno risg diogelu newydd a gofynnodd am ragor o wybodaeth am y mater hwn fel cyd-destun. Cadarnhaodd NL fod y risg diogelu wedi'i gyflwyno oherwydd y ffaith bod gwiriadau DBS ar unigolion yn cael eu cynnal pan fydd rhywun yn dechrau gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac nid oedd modd eu hadnewyddu wedi hynny, a oedd yn cyflwyno risg na fydd gan gyflogeion o bosibl wiriad DBS ar y lefel briodol ar gyfer eu rôl. Nododd y Pwyllgor bod angen gwirio gwiriadau DBS ar gyfer meysydd fel y rheini sy'n ymwneud â'r Rhaglen Llysgenhadon Ifanc.

Cytunodd CB i gyflwyno papur ar hyn mewn cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

**Camau gweithredu - CB**

Wedi'i Gadarnhau

**Trafododd** y Pwyllgor y Risgiau Strategol a chafodd **sicrwydd** ynghylch y gwaith o reoli'r Risgiau Strategol a Chorfforaethol yn y sefydliad, o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

| **PODC 3.3.1/ 2024.04.11** | **Dull o ymdrin â Risgiau'r Gweithlu** |
|---|---|

Gwnaeth NL gyflwyno DG fel y Pennaeth Rheoli Risg a nododd y gwahaniaeth cadarnhaol yn ystod ei hamser yn y sefydliad.

Darparodd DG drosolwg o'r dull o wneud y gwaith i sicrhau synergedd rhwng risgiau sefydliadol, corfforaethol a strategol, ac i gyflawni buddiannau'r Cynllun Datblygu Rheoli Risgiau a gymeradwywyd gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn 2023.

Amlygodd DG y gofyniad i goethi'r broses uwchgyfeirio ar gyfer rheoli risg sefydliadol a'r meini prawf diffiniad ar gyfer pob lefel er mwyn sicrhau eglurder a chefnogaeth i'r staff. Roedd y gwaith hwn hefyd yn cynnwys gwaith a wnaed ar lefelau'r awydd am risg ac mae'n anelu at weithredu'r gwaith o reoli risg yn ystod y cam datblygu prosiectau.

Diolchodd MM i DG am y diweddariad a nododd fod y gwaith hwn yn mynd i'r afael â mater allweddol a godwyd gan Archwilio Cymru ynghylch uwchgyfeirio risg ac a yw'r risgiau priodol yn cael eu gweld gan y Bwrdd. Gofynnodd MM i DG ac NL ddod â diagram o'r broses risgiau i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

**Camau Gweithredu: DG/NL**

| **PODC 3.4/ 2024.04.11** | **Crynodeb Chwemisol o'r Polisïau** |
|---|---|

Rhoddodd LB drosolwg o'r adroddiad chwarterol safonol sy'n dangos sefyllfa bresennol yr holl bolisïau sydd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, a amlygodd unrhyw rai sydd wedi mynd y tu hwnt i'w dyddiad adolygu a pha gamau a gymerwyd i adolygu'r rhain.

Amlygodd LB ddau bolisi a oedd wedi pasio eu dyddiad adolygu ac a oedd yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd ac a fyddai'n dod i gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol i gael eu cymeradwyo'n derfynol. Nodwyd hefyd y gofynwyd i'r Arweinydd Gweithredol asesu'r risg o ran effaith polisïau sydd wedi dyddio ar y sefydliad, a bod y naill bolisi a'r llall yn yr achos hwn wedi'u hasesu'n rhai risg isel.

Gofynnodd y Pwyllgor a ellid adlewyrchu'r gwaith hwn yn y gweithdy adolygu ar y Polisi Recriwtio a Dewis i ddwyn y gwaith ynghyd a nododd yr angen posibl i ddiweddaru'r polisi ffonau symudol i adlewyrchu eu gallu cynyddol. Awgrymodd y Pwyllgor hefyd gyfle posibl i gynnwys y polisi ffonau symudol mewn polisi arall sy'n cwmpasu diogelwch seiber.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y blaenoriaethu a'r cynnydd a wnaed i adolygu polisïau, gweithdrefnau a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

| **PODC 3.5/** | **Adroddiad ar Gostau Byw** |
|---|---|

Wedi'i Gadarnhau

Wedi'i Gadarnhau

| **2024.04.11** | |
|---|---|

Darparodd NL drosolwg o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Tîm Gweithredol ac i amlygu ehangder y gwaith a wnaed yn allanol ac yn fewnol.

Amlygodd NL enghreifftiau fel yr ymgyrch Wagestream a'r ymgyrch gyfathrebu yn ogystal â chynllun gweithredu a dynnodd ynghyd y camau cyflawnadwy a fyddai'n darparu cymorth.

Nododd y Pwyllgor y cyfeiriad yn yr adroddiad at y trydydd sector ac awgrymodd y dylid gwneud mwy i ymgysylltu â sefydliadau trydydd sector y tu hwnt i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru* oherwydd gallai hyn ddarparu gallu allgymorth gwell i gymunedau a phobl agored i niwed nag y gallai Iechyd Cyhoeddus Cymru ei gyflawni ar ei ben ei hun. Derbyniodd NL y pwynt hwn a chytunodd i weithio gyda swyddogion gweithredol eraill i ddarparu ymateb.

**Camau Gweithredu: NL**

Holodd y Pwyllgor hefyd a oedd asesiadau o'r effaith ar iechyd wedi'u cynnal fel rhan o'r adroddiad hwn; cytunodd NL i wirio hyn ac adrodd yn ôl.

**Camau Gweithredu: NL**

**Ystyriodd** y Pwyllgor hyd a lled y gwaith a wnaed eisoes ledled y sefydliad mewn ymateb i'r argyfwng costau byw.

| **PODC 4/2024.02.06** | **Eitemau i'w Cymeradwyo** |
|---|---|
| **PODC 4.1/ 2024.04.11** | **Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn Codi o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror Gorffennaf 2024** |

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod ar 6 Chwefror 2024.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor y weithred o gau'r camau gweithredu a gwblhawyd ar y Cofnod Gweithredu a chymeradwyodd y cais i newid dyddiad cam gweithredu 2023/33 i 9 Gorffennaf 2024.

Cytunodd NL y byddai'n trafod â CB i weithredu cam gweithredu PODC 2024/5 fel rhan o'r gwaith Llysgenhadon Ifanc tra bod y rhaglen yn cael ei hadolygu.

**Camau Gweithredu: NL**

| **PODC 4.2/ 2024.04.11** | **Polisïau i'w Cymeradwyo** |
|---|---|

Dim.

| **PODC 5/2024.04.11** | **I'w Argymell i'w Bwrdd** |
|---|---|

Darparodd LB drosolwg o'r adroddiadau y gofynnwyd i'r Pwyllgor eu hargymell er mwyn i'r Bwrdd roi sicrwydd arnynt/eu cymeradwyo.

Gofynwyd i’r Pwyllgor adolygu:

- Y newidiadau arfaethedig i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor
- Y Rhagolwg ar gyfer 2023/24, a oedd hefyd yn cynnwys gwaith ar draws pwyllgorau
- Crynodeb o’r adolygiad o effeithiolrwydd.

Holodd y Pwyllgor a fyddai’r data o’r Arolwg Staff ac ar gyfweliadau gadael yn bwyntiau trafod yn y Rhagolwg. Nododd NL yr oedi o du AaGIC ond cadarnhaodd y byddai data’r arolwg yn cael eu rhannu â’r staff ac fel adroddiad i’r Bwrdd; byddai’r data cyfweliadau gadael yn cael eu trafod fel rhan o’r Dangosfwrdd Perfformiad a gyda’r Fforwm Partneriaeth Lleol.

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- **Gymeradwyo** Cynllun Gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 a chytunodd i’w gyflwyno i’r Bwrdd i gael sicrwydd arno.
- **Cymeradwyo** Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ac argymhellodd yr adroddiad i’r Bwrdd i roi sicrwydd arno.
- **Argymell** y newidiadau arfaethedig i’r Cylch Gorchwyl i’r Bwrdd i’w cymeradwyo.
- **Ystyried** cyflwyniad effeithiolrwydd y Pwyllgor, a’i argymell i’r Bwrdd i roi sicrwydd arno.

| | |
|---|---|
| **PODC 6/2024.04.11** | **Eitemau i’w Nodi** |
| **PODC 6.1/ 2024.04.11** | **Adroddiadau Archwilio** |
| Dim. | |
| **PODC 6/2024.04.11** | **Materion Gweinyddol i Gloi** |

**Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor: 9 Gorffennaf 2024**

**Unrhyw Fater Arall**

Gofynnwyd i’r Pwyllgor anfon adborth ar y cyfarfod mewn e-bost at LB.

Diolchodd MM i bawb am eu cyfraniad a daeth â’r cyfarfod i ben.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:06

Wedi’i Ca